

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

MANYLION CYSWLLT AR EIN WEFAN

<http://cyngorcymunedllanddarog.co.uk/>

Croesawir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'n Saesneg / Correspondence is welcomed in Welsh or English

Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau cymunedol. Er mwyn darparu rhai o'r gwasanaethau hyn mae angen i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol briodol; gellir casglu hwn ar bapur neu ar-lein, dros y ffôn, trwy e-bost, neu yn bersonol.

Fe gasglwn a chadw eich gwybodaeth er mwyn:

- cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus;
- cadarnhau eich hunaniaeth i ddarparu rhai gwasanaethau;
- cysylltu â chi trwy'r post, ebost neu dros y ffôn;
- deall beth allwn ni ei wneud i chi a'ch hysbysu o wasanaethau a buddion perthnasol eraill; neu gael eich barn am ein gwasanaethau.

Fe broseswn eich gwybodaeth am y rhesymau canlynol:

- ar gyfer y gwasanaeth y gofynnoch amdano ac i fonitro a gwella perfformiad y Cyngor wrth ymateb i'ch cais;
- caniatáu i ni allu cysylltu â darparu gwasanaethau a buddion sy'n briodol i'ch anghenion;
- i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymadau cyfreithiol;
- i brosesu trafodion ariannol yn cynnwys grantiau a thaliadau.

Er enghraifft, i ddelio gyda phryder wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â mater briffyrdd lleol efallai bydd angen i ni weithio gyda'r Cyngor Sir neu Asiantaeth Cefnffyrdd.

Fe rannwn ni wybodaeth yn unig pan fydd yn deg a chyfreithlon i ni wneud hynny.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni:

Bydd y wybodaeth 'rydych yn ei darparu (gwybodaeth bersonol megis eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, enw'r mudiad) yn cael ei phrosesu a'i chadw i'n galluogi ni i gysylltu â chi ac i ymateb i'ch gohebiaeth, i ddarparu gwybodaeth ac/ neu i gael mynediad at ein cyfleusterau a'n gwasanaethau.

Hawl y Cyngor i Brosesu Gwybodaeth

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol Erthygl 6 (1) (a), (b) a (d)

Bod y prosesu yn digwydd gyda chydysyniad gwrthrych y data neu fod angen prosesu i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu fod angen prosesu'r wybodaeth i gwblhau gweithred a wneir er budd y cyhoedd neu wrth weithredu'r awdurdod swyddogol a roddwyd i'r Rheolwr.

Diogelwch Gwybodaeth

Mae gan Gyngor Cymuned Llanddarog ddyletswydd i sicrhau diogelwch data personol. Byddwn yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei ddiogelu rhag fynediad anawdurdodedig, colled, camddefnydd, ffugiad, distryw neu ddatgeliad anawdurdodedig.

Byddwn yn cadw eich data dim ond at y pwrpas y'i casglwyd, a dim ond cyhyd ag y bod angen ei gadw. Ar ddiwedd y cyfnod hwn bydd y data yn cael ei ddileu. (Gallwch wneud cais, ar unrhyw adeg, i ofyn i Gyngor Cymuned Llanddarog ddileu eich data).

Plant

Ni fyddwn yn prosesu data sy'n berthnasol i blentyn (o dan 13 oed) heb gydsyniad datganedig rhiant / gwarcheidwad y plentyn hwnnw.

Mynediad at Wybodaeth

Mae gennych yr hawl i gael mynediad at y wybodaeth y cedwir amdanoch chi gennym ni. Gallwch wneud hynny drwy gysylltu â'n Rheolydd Data, sef y Clerc, drwy'r manylion cyswllt uchod.

Cywiro Gwybodaeth

Os 'rydych yn credu bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, gallwch gysylltu â ni fel ein bod yn gallu uwchraddio'ch data a sicrhau ei fod yn gywir. I wneud cais o'r math, cysylltwch â'n Rheolydd Data, sef y Clerc, drwy'r manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Diddymu Gwybodaeth

Os 'rydych am i Gyngor Cymuned Llanddarog ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, cysylltwch â'n Rheolydd Data, sef y Clerc, drwy'r manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Yr Hawl i Wrthwynebu

Os 'rydych yn credu bod eich data yn cael ei brosesu at ddiben gwahanol i'r un y'i casglwyd, gallwch leisio'ch gwrthwynebiad. I wrthwynebu, a wnewch chi gysylltu â Rheolydd Data, sef y Clerc, drwy'r manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Hawliau sy'n Gysylltiedig â Gwneud Penderfyniadau Awtomatig a Phroffilio

Nid yw Cyngor Cymuned Llanddarog yn defnyddio unrhyw fath o system gwneud penderfyniadau awtomatig, neu'n proffilio data personol unigol.

Casgliad: Yn unol â gofynion y gyfraith ni fyddwn ond yn casglu'r wybodaeth hynny amdanoch sydd ei angen at ddiben gohebu, rhoi gwybodaeth a darparu gwasanaeth. Nid ydym yn defnyddio proffilio, ac nid ydym yn gwerthu eich data i drydydd partïon. Nid ydym yn defnyddio eich data at unrhyw bwrpas arall na'r hyn a bennwyd. 'Rydym yn sicrhau bod eich data yn cael ei gadw'n ddiogel. 'Rydym yn dileu unrhyw fanylion y tybir nad oes angen eu cadw bellach. 'Rydym yn adolygu ein Polisiâu yn barhaus. Gallwch ofyn, ar unrhyw adeg, am gopi o'n polisiâu.

Cwynion

Os oes gennych bryder ynghylch y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu gallwch wneud cwyn at Rheolydd Data Cyngor Cymuned Llanddarog, sef y Clerc, drwy'r manylion cyswllt uchod a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth casework@ico.org.uk Ffôn: 0303 123 1113